Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Caerfyrddin

**Heol Stepney**
**Porth Tywyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA16 0BE**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Gwerthusiad

### Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r UCD wedi profi tarfu sylweddol i'w haddysg, sy'n cael effaith negyddol ar eu presenoldeb a'u hymgysylltiad â dysgu. Yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda o ran eu dysgu a'u hymddygiad. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r UCD yn amser llawn yn rhy isel. Mae arweinyddiaeth yn darparu amgylchedd dysgu diogel ac anogol gyda goruchwyliaeth dros arlwy cwricwlwm addas. Caiff y cwricwlwm ei ategu'n llwyddiannus gan ymagweddau therapiwtig at gefnogi cynnydd yn nysgu, ymddygiad ac anghenion emosiynol disgyblion.

## Prif werthusiad

Mae gan uwch arweinwyr drefniadau addas ar waith i sicrhau bod yr UCD yn cael ei rhedeg yn llyfn. Mae'r UCD yn darparu amgylchedd diogel ac anogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parchu staff, ymwelwyr, a'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o'u hawliau a sut gallant ddylanwadu ar eu dysgu yn yr UCD. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio ymddiriedus cryf â staff lle maent yn teimlo y gwrandewir arnynt.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf yn yr UCD. Mae staff yn gwybod yn dda beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy y gallant droi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae hyfforddiant i staff gynnal lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r prosesau diogelu yn yr UCD ar waith yn gadarn.

Mae uwch arweinwyr yn weladwy o gwmpas y ddau safle. Maent yn gwybod ac yn deall yn dda beth yw anghenion eu disgyblion ac yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer staff. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu cyfeiriad ar gyfer yr UCD. O ganlyniad, caiff arweinyddiaeth effaith fuddiol ar agweddau pwysig ar waith yr UCD, fel ymddygiad a lles disgyblion.

Nid yw eglurder y rolau a'r cyfrifoldebau, yn cynnwys ar gyfer arweinwyr canol ar draws yr UCD, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae'r strwythur presennol a'r diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau yn cyfyngu'n sylweddol ar gapasiti'r pennaeth i ganolbwyntio'n strategol ar wella meysydd allweddol i'w datblygu.

At ei gilydd, ar draws yr UCD, mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu a chymhwyso medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn ystod o gyd-destunau pwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau llafaredd. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno ystod o strategaethau defnyddiol i wella medrau darllen disgyblion. Megis dechrau datblygu y mae'r strategaethau hyn. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn briodol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu a chymhwyso'u medrau ysgrifennu'n briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu a chymhwyso’u medrau rhifedd. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio prosesu geiriau yn effeithiol. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddiffyg adnoddau, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau digidol disgyblion yn gyfyngedig. O ganlyniad, nid yw medrau digidol disgyblion wedi’u datblygu’n ddigonol, ar y cyfan.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu’n hyderus ag oedolion a chyfoedion. Maent yn gwrando’n dda ar oedolion ac ar ei gilydd, ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn hyderus mewn gwersi ynglŷn â’r hyn y maent yn ei ddysgu, ac yn gofyn cwestiynau perthnasol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau disgyblion. Ceir cyfleoedd priodol hefyd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau creadigol ar draws y cwricwlwm.

Pan mae’r dysgu’n fwy ymarferol ac yn digwydd trwy brofiad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau addas o annibyniaeth yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i ddibynnu ar gymorth gan staff i gyfeirio’u dysgu ffurfiol ac nid ydynt yn arddangos medrau dysgu’n annibynnol ar lefel sy’n briodol i oedran yn y gwersi hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymddygiad cadarnhaol mewn gwersi ac o gwmpas yr UCD, o gymharu â’u hanghenion a’u galluoedd. Mae gan arweinwyr system ddefnyddiol ar gyfer olrhain ymddygiad i werthuso ymddygiad disgyblion a nodi a rhannu’n dda gyda’r staff ehangach beth yw’r sbardunau a’r tueddiadau sydd angen ymyrraeth dargedig.

**Mae’r UCD yn gosod ffiniau cadarn a chyson o ran y disgwyliadau yn gysylltiedig â’r holl ddisgyblion yn ystod eu cyfnod ar y safle.**

Pan fyddant yn cyrraedd yr UCD bob bore, mae disgyblion yn cael gwiriad lles gyda chyfle i siarad gyda staff a gyda’i gilydd, a chael brecwast. Yn ystod yr amser hwn, mae disgyblion yn rhoi eu dyfeisiau symudol i staff eu cadw tan ddiwedd y dydd. Mae pob un o’r disgyblion yn dilyn y weithdrefn hon heb drafferth. O ganlyniad, mae disgyblion yn barod i ddysgu. Mae hyn yn gryfder yn yr UCD.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr UCD gydag agweddau negyddol tuag atyn nhw eu hunain fel dysgwyr. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, mae llawer o’r disgyblion hyn yn gwella’u hagweddau at ddysgu yn fawr. Maent yn datblygu gwydnwch a strategaethau i reoli teimladau negyddol yn dda. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda o ran eu dysgu a’u hymddygiad.

Mae mwyafrif o ddisgyblion sy’n mynychu’r UCD wedi profi cyfnodau amser hir allan o addysg ffurfiol. Mae’r UCD yn defnyddio’r wybodaeth sydd ganddi am ddisgyblion ac yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill yn effeithiol i bennu’r ddarpariaeth a’r camau mwyaf priodol i gefnogi dyhead am bresenoldeb amser llawn. O ganlyniad, mae’r UCD yn cynnig ystod o ymagweddau buddiol at gael disgyblion i ymgysylltu â dysgu o’r newydd i ddechrau, gan ddefnyddio dull graddedig wedi’i gynllunio’n dda. Fodd bynnag, er mai nod yr UCD yw bod yr holl ddisgyblion yn mynychu’n amser llawn, mae mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr UCD yn mynychu’n rhan-amser, ac ychydig ohonynt yn mynychu am lai na hanner yr wythnos. Mae

cynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau) yn addas i ddiwallu anghenion disgyblion, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigon da ar wella dychweliad disgyblion i bresenoldeb amser llawn. Mae’r UCD yn cynnal adolygiadau rheolaidd o CCBau disgyblion. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy’n mynychu’r UCD yn amser llawn yn rhy isel.

Mae ehangder a chydbwysedd arlwy’r cwricwlwm yn briodol ar draws yr UCD. Ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn, mae ystod y llwybrau cymwysterau yn adlewyrchu anghenion, galluoedd a diddordebau’r disgyblion yn dda.

**Mae arlwy’r cwricwlwm iechyd a lles ar gyfer pob un o’r disgyblion yn gryf.**

Mae disgyblion yn profi ystod eang o weithgareddau dysgu sy’n helpu datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol, a deall buddion ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, mae pob un o’r disgyblion wedi cyfrannu at ddatblygu siarter bwyta’n iach sy’n gosod cyfyngiadau ar y safle ar gynnwys caffein a siwgr mewn diodydd. Yn yr un modd, mae achosion o ddisgyblion yn fepio ar y safle wedi gostwng yn sylweddol.

Mae gwaith ymyrraeth disgyblion wedi’i seilio ar arfer sy’n ystyriol o drawma yn ategu arlwy’r cwricwlwm ac yn gryfder yn yr UCD. Mae bron pob un o’r staff yn cyflwyno hyn. Mae staff yn gweithio’n dda gydag asiantaethau allanol, lle bo’n briodol, ac yn darparu dull cyfannol ar gyfer yr arlwy dysgu disgyblion unigol. Mae hyn yn cefnogi’r cynnydd a wna disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr UCD yn dda. Mae’r UCD hefyd yn cynnig ystod o raglenni ymyrraeth defnyddiol sy’n cynorthwyo disgyblion â datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, eu hiechyd emosiynol, a’u medrau cymdeithasol.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod briodol o strategaethau i gasglu tystiolaeth am yr UCD i wella ansawdd y ddarpariaeth. At ei gilydd, mae’r gweithgareddau hyn yn rhoi trosolwg gwerthfawr i arweinwyr o waith yr UCD ac yn helpu nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ei chynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiadau o gynnydd bob amser yn canolbwyntio’n ddigon da ar sut bydd camau’r UCD yn gyrru gwelliannau.

Caiff y rhan fwyaf o wersi eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc sydd â dealltwriaeth gref o anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Maent yn cynllunio gwersi sy’n ennyn diddordeb disgyblion ac yn darparu’n addas ar gyfer anghenion dysgu ac emosiynol y disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi ar gyfer disgyblion hŷn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, gan gynnwys her a chyflymdra effeithiol, ac fe gaiff disgyblion eu hannog i ystyried a deall eu cryfderau a’u meysydd i’w datblygu eu hunain.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o gyllid i wella’r amgylchedd dysgu. Er enghraifft, maent wedi sefydlu man trin gwallt i gyflwyno cymwysterau mewn gwallt a harddwch, ac ystafell synhwyraidd i gynorthwyo disgyblion i hunanreoli, a rheoli dicter, gorsymbylu, a straen. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau priodol i gefnogi dysgu’r disgyblion. Fodd bynnag, mae adnoddau’n rhy gyfyngedig ar gyfer arlwy’r cwricwlwm synhwyraidd. Yn ychwanegol, nid yw’r amgylchedd yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws y ddau safle, ar y cyfan. Er enghraifft, mae ardaloedd dysgu yn yr awyr agored yn gyfyngedig ac yn cynnwys adnoddau prin.

Mae llawer o staff yn defnyddio technegau holi'n fedrus i ddarparu her a chefnogi a datblygu ymgysylltiad disgyblion. Mae eu defnydd o ddulliau sy'n ystyriol o drawma yn cynorthwyo staff i fesur yn effeithiol pa mor dda y mae disgyblion yn ymdopi yn ystod gwersi. O ganlyniad, mae staff yn atal heriau ymddygiadol posibl yn llwyddiannus ac yn cefnogi meithrin gwydnwch ac agweddau cadarnhaol at ddysgu ar gyfer disgyblion yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos dealltwriaeth gref o anghenion dysgu ychwanegol penodol pob disgybl, ac yn darparu ar gyfer hyn yn eu cynllunio ac wrth ddefnyddio staff cymorth. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae dulliau i ddiwallu anghenion synhwyraidd y garfan gynyddol o ddisgyblion sydd â diagnosis o awtistiaeth.

Mae gan yr UCD waelodlin briodol o wybodaeth am gyrhaeddiad a lles disgyblion pan fyddant yn dechrau yno. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddatblygu cynlluniau dysgu addas a gosod targedau priodol ar gyfer llythrennedd, rhifedd, lles ac ymddygiad. Mae prosesau i olrhain a monitro cynnydd disgyblion unigol wrth gyflawni eu targedau yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae dulliau strategol i werthuso cynnydd disgyblion ac effaith ymyriadau. O ganlyniad, mae hyn yn effeithio ar effeithiolrwydd arweinwyr i gynllunio ar gyfer gwella'n drylwyr ar draws yr UCD.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadael yr UCD gyda chymwysterau wedi'u hachredu'n genedlaethol mewn cyrsiau sy'n gysylltiedig â'u hanghenion a'u diddordebau unigol. Yn ogystal â'r cymorth a gynigir gan staff yn yr UCD, mae disgyblion Blwyddyn 11 wedi elwa'n ddiweddar ar gyngor ac arweiniad defnyddiol ar yrfaoedd gan gynghorydd gyrfaoedd allanol. Symudodd bron yr holl ymadawyr yn 2023 ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

At ei gilydd, bu gostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o ddata ar waharddiadau yn gyfyngedig.

Ar draws yr UCD, mae'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol yn isel. Fodd bynnag, mae'r drefn ar gyfer cadw cofnodion yn anghyson ar draws y ddau safle.

Mae staff ar draws yr UCD yn ystyriol fod llawer o'r disgyblion dan anfantais oherwydd tlodi a'r effaith y gallai hyn ei chael ar eu dysgu. Ceir diwylliant cryf o degwch o ran profiadau dysgu, ymddygiad a lles ar gyfer yr holl ddisgyblion ar draws y ddau safle. Mae gan yr UCD gysylltiadau sefydledig ag ystod briodol o asiantaethau allanol. Mae'r gweithio amlasiantaethol hwn yn cefnogi ymagwedd gydgysylltiedig at gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd yn dda.

**Mae gan arweinwyr a staff berthnasoedd gweithio cryf â theuluoedd.**

Mae'r UCD yn cynnal nifer o ddigwyddiadau i deuluoedd eu mynychu, er enghraifft ffeiriau Nadolig, gwerthu planhigion y Gwanwyn, a phrynhawniau agored. Mae staff allweddol yr UCD ar gael yn ystod y digwyddiadau hyn i gynorthwyo teuluoedd â phroblemau y gallent fod yn eu hwynebu, er enghraifft heriau'n ymwneud â chysgu, deall awtistiaeth a phryderon ariannol.

Mae adroddiadau i rieni am gynnydd eu plentyn yn addas. Mae arweinwyr yn datblygu cysylltiadau defnyddiol â'r gymuned, fel darparu blychau clwydo ar gyfer ystlumod i brosiect cymunedol lleol. O ganlyniad, gwerthfawrogir enw da ac ymglymiad yr UCD yn y gymuned.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff yn effeithiol. Caiff staff cymorth eu hyfforddi'n briodol ac maent yn hanfodol i gynllunio a chyflwyno arlwy'r cwricwlwm ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cynllunio ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, ac yn gwneud cynnydd priodol o ran diwygio anghenion dysgu ychwanegol a rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, er bod cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod yn broblem.

At ei gilydd, mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau gofynnol yn briodol. Maent yn cyfrannu'n briodol at osod blaenoriaethau strategol yr UCD ac yn meddu ar ddealltwriaeth addas o gryfderau'r UCD a'r meysydd i'w datblygu. Mae aelodau'n darparu cydbwysedd priodol o ran cymorth a her. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o gyd-destun arbenigol yr UCD yn gyfyngedig.

## Cydymffurfio statudol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn achosi unrhyw bryder.

### Bwyta ac yfed yn iach

Mae gan yr UCD drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

### Cyllid yr UCD

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr UCD yn briodol, gan gynnwys defnydd o'r grant datblygu disgyblion.

### Iechyd a diogelwch (diogeledd ar y safle)

Roedd trefniadau'r UCD ar gyfer diogeledd ar y safle yn achosi pryder, a thynnwyd sylw'r awdurdod lleol at hyn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r UCD i barhau i wella:

- A1 Gwella presenoldeb
- A2 Gweithio gyda'r awdurdod lleol i wella ansawdd yr amgylchedd dysgu
- A3 Egluro rolau a chyfrifoldebau arweinwyr canol
- A4 Cryfhau systemau ar gyfer asesu, olrhain, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff ac aelodau o'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol / UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol / UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle bo hynny'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol / UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol / UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol / UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol / UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Ynglŷn â Chanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Caerfyrddin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Caerfyrddin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Darpariaeth ar sawl safle? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 76 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 76 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/12/2023 |

Mae Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gâr yn cynnwys darpariaeth loeren Canolfan Y Gors. Mae'n un o'r tair UCD sydd wedi'u cofrestru yn awdurdod lleol Sir Gâr. Mae pob safle'n dilyn meini prawf yr awdurdod lleol ar gyfer derbyn. Mae disgyblion 11-16 oed yn mynychu safle Porth Tywyn. Mae disgyblion ar y safle hwn yn bennaf wedi bod mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol. Mae disgyblion yn nodweddiadol yn dangos ymddygiadau ymddangosiadol heriol, a allai ddeillio o anghenion iechyd meddwl ac/neu anghenion dysgu a thrawma.

Mae disgyblion sy'n mynychu safle Canolfan Y Gors yn 11-16 oed, a phob un ohonynt dan ddarpariaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs). Yn nodweddiadol, gallai plant hunan-niweidio, bod â gorbryder, a gallant fod ag ymddygiadau mewnblyg ac anghenion dysgu.

Mae safle Porth Tywyn yn llawn. Mae 42 o ddisgyblion, a dau ddisgybl arall sy'n pontio i'r UCD. Mae 30 o ddisgyblion oedran uwchradd iau ac 14 o ddisgyblion oedran uwchradd hŷn. Mae Canolfan Y Gors hefyd yn llawn, gyda 32 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 12 o ddisgyblion oedran uwchradd iau a 20 o ddisgyblion oedran uwchradd hŷn. Mae gan bob un o'r disgyblion gofrestriad deuol yn yr UCD a'u hysgol brif ffrwd. Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ddau safle sydd â diagnosis o awtistiaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Y gyfradd presenoldeb yw 60%. Mae gan bob un o'r 76 o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, mae 59% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda chyfartaledd treigl tair blynedd o 51.90%. Mae gan bum disgybl statws 'plant sy'n derbyn gofal'. Nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae rheolwr y ganolfan wedi bod yn ei swydd er 2022.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Atodiad 2: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/02/2024